Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector
Third Sector Additional Needs Alliance

# CYFRANOGIAD AC YMARFER PERSON-GANOLOG



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government



# Cyfranogiad plant, eu rhieni a phobl ifanc

**Rhaid i unigolyn sy'n ymarfer swyddogaethau o dan y Ddeddf ac sy'n ymwneud â phlentyn neu berson ifanc unigol roi sylw i'r canlynol -**

- safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn a'i riant neu'r person ifanc,
- pwysigrwydd sicrhau bod y plentyn a'i riant neu'r person ifanc yn gallu cyfranogi mor llawn â phosib mewn penderfyniadau sy'n ymwneud ag ymarfer y swyddogaeth dan sylw,
- pwysigrwydd darparu'r wybodaeth a'r cymorth angenrheidiol er mwyn galluogi'r plentyn a'i riant neu'r person ifanc i gyfranogi yn y penderfyniadau hynny.

Adran 6 o'r Ddeddf.



# Mae'r ddyletswydd hon yn adlewyrchu ethos ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

**Mae ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn sicrhau bod y plentyn, ei riant neu'r person ifanc yn ganolog i benderfyniadau.**

Bydd cefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc i gyfranogi mewn ffordd ystyrlon yn eu helpu i wneud y canlynol :

- teimlo'n hyderus bod eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau'n cael eu gwrando a'u gwerthfawrogi, hyd yn oed os ydynt yn cael trafferth i'w mynegi.
- bod yn ymwybodol o'u hawliau a'r cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt.
- datblygu ymdeimlad o gyfrifoldeb a rheolaeth dros eu dysgu.

O ganlyniad i hyn, mae'n fwy tebygol y bydd anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn cael eu hadnabod yn gywir ac mae'r ddarpariaeth y penderfynir arni er mwyn diwallu'r anghenion hynny yn fwy tebygol o fod yn effeithiol. Dylai hynny, yn ei dro, arwain at well deilliannau ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc .



**Mae'r ddyletswydd yn berthnasol beth bynnag yw galluedd y plentyn neu'r person ifanc dan sylw .**

Hyd yn oed pan na fydd plant yn gallu deall beth mae ymarfer eu pwerau o dan y Ddeddf yn ei olygu, mae eu cyfraniad i'r broses yn bwysig er mwyn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu hadnabod yn gywir a bod darpariaeth gywir ar waith, sy'n bodloni eu hanghenion mewn modd effeithiol.



**Er mwyn bodloni'r ddyletswydd hon, dylai awdurdodau lleol, ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach, wrth iddynt wneud penderfyniadau ynghych ADY plentyn neu berson ifanc neu ei DDdY neu faterion eraill sy'n ymwneud â CDU (gan gynnwys penderfynu a yw CDU yn angenrheidiol), wneud y canlynol:**

- gofyn barn y plentyn, ei riant neu'r person ifanc ar sut maen nhw am gyfranogi yn y penderfyniadau, cyn bod y penderfyniadau hynny'n cael eu gwneud
- rhoi gwybodaeth sy'n berthnasol i'r penderfyniad i'r plentyn, ei riant neu'r person ifanc mewn modd y gall y plentyn, ei riant neu'r person ifanc ei ddeall.
- annog y plentyn, ei riant neu'r person ifanc i gyfranogi'n llawn yn y broses.
- defnyddio barn y plentyn, ei rieni neu'r person ifanc i lywio'r penderfyniadau;
- sicrhau bod gan y plentyn, ei riant neu'r person ifanc fynediad at wybodaeth a chyngor ynghylch ADY a'r system ADY.

# Darparu gwybodaeth a chefnogaeth

**Mae awdurdodau lleol, ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau yn y Ddeddf ac i'r gofynion yn y Côd ynghylch darparu gwybodaeth am y system ADY.**

Gall y cyrff hyn ddefnyddio'r wybodaeth hon i egluro'r system ADY wrth gyflawni eu dyletswydd i gynnwys a chefnogi plant unigol, eu rhieni a phobl ifanc.



Dylai awdurdodau lleol, ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach a chyrff y GIG ddefnyddio'r wybodaeth am ofynion a dewisiadau cyfathrebu i sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i helpu'r plant a'r bobl ifanc i gyfranogi'n llawn mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â nhw ac i fynegi eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau. Ar ben hynny, dylai awdurdodau lleol, ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach a chyrff y GIG ddefnyddio'r wybodaeth honno i sicrhau eu bod yn osgoi trefniadau amhriodol.

Yn yr un modd, wrth ddarparu gwybodaeth a thrafod gyda'r plentyn neu'r person ifanc, dylai'r ysgol a gynhelir, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol gyfathrebu gan ddefnyddio gofynion a dewisiadau cyfathrebu'r plentyn neu'r person ifanc mewn ffordd y gall y plentyn neu'r person ifanc ei ddeall.

Dylai ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol wneud y pethau hyn yng nghamau cynnar y broses o wneud y penderfyniadau hyn a pharhau i wneud hynny ar hyd y broses a all fod yn angenrheidiol er mwyn galluogi'r plentyn, ei riant neu'r person ifanc i gymryd rhan lawn yn y broses.

Er mwyn cynnwys plant a phobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau, dylai pob corff sy'n ymarfer swyddogaethau o dan y Ddeddf ystyried sut byddai'r plentyn neu'r person ifanc yn hoffi cyfathrebu a chyfranogi, beth fyddai'n ddull ymgysylltu addas ar eu cyfer a sut i'w helpu i gyfranogi.





## Adnabod sut byddai plentyn neu berson ifanc yn hoffi cyfathrebu a chyfranogi

Y man cychwyn o ran cynnwys plant a phobl ifanc yw deall sut mae'r plentyn neu'r person ifanc am gyfathrebu ei safbwyntiau a deall unrhyw gymorth a allai fod yn ofynnol i hwyluso cyfranogiad y plentyn neu'r person ifanc.

Mae deall sut mae'r plentyn neu'r person ifanc am gyfranogi yn hanfodol.

Mae hyn yn cynnwys iaith y cyfathrebu, y dull cyfathrebu ac ymgysylltu ac, yn achos pobl ifanc, a ydyn nhw am gynnwys pobl eraill yn y cyfathrebiadau hyn a sut hoffen nhw wneud hynny.

Mae deall gofynion a dewisiadau cyfathrebu'r plentyn neu'r person ifanc yn bwysig er mwyn hwyluso eu presenoldeb a'u cyfranogiad mewn cyfarfodydd sy'n rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

Os na fydd yn briodol iddynt ddod i'r cyfarfodydd hyn, mae angen deall eu gofynion a'u dewisiadau cyfathrebu er mwyn gallu casglu eu safbwyntiau mewn ffyrdd eraill.

Cynlluniau – i gefnogi fy ngorbryder - pwy all fy helpu i?

Bydd deall fy newisiadau cyfathrebu yn fy helpu i gyfranogi yn 'Fy nghyfarfodydd i' a gwneud penderfyniadau ynghylch 'Fy nyfodol i'







# Beth yw Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn?

Proses barhaus o wrando a dysgu am yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn nawr a'r hyn fydd yn bwysig yn y dyfodol, gyda'r teulu, ffrindiau a gweithwyr proffesiynol yn cydweithio i wireddu hyn.

Mae'n ddull gweithredu sy'n ystyried beth sy'n bwysig iddynt nawr, beth yw eu dymuniadau ar gyfer y dyfodol a'r cymorth sy'n ofynnol er mwyn iddynt gyrraedd y nod. Cyflawnir hyn â thîm neu gylch o bobl sy'n eu cefnogi, gan gynnwys rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol.



# Yr Egwyddorion Allweddol

- Mae Pobl ifanc, Plant a'u Rhieni/Gofalwyr yn bartneriaid yn y cynllunio.
- Mae'n ystyried y person ifanc cyfan heb ganolbwyntio'n unig ar ei ddiagnosis neu'r hyn na all ei wneud
- Mae'r sesiynau'n ddigwyddiadau gweithredol sy'n cynnwys amlygu'r pethau mae pawb yn eu hoffi a'u hedmygu am y plentyn/person ifanc
- Dynodir camau gweithredu i'r unigolion sydd wedi bod â rhan yn y cynllunio
- Dylai pawb sy'n berthnasol fod yn chwarae rhan yn y broses

# Dogfennau Canllawiau Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar Unigolion:

- Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar Unigolion mewn Addysg: canllaw ar gyfer y blynyddoedd cynnar, ysgolion a cholegau yng Nghymru

- Datblygu fel Sefydliad sy'n Canolbwyntio ar Unigolion: offeryn hunanasesu a chamau arferol ar gyfer cynnydd

- Pecyn cymorth Adolygiadau sy'n canolbwyntio ar Unigolion: canllawiau ar gyfer y blynyddoedd cynnar, ysgolion a cholegau yng Nghymru

# Offer Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar Unigolion

Mae offer meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion yn ffyrdd pwerus a hyblyg o weithio gyda phob dysgwr unigol.

Gellir eu defnyddio mewn unrhyw drefn. Bydd y rhan fwyaf o sefydliadau addysg yn dechrau drwy ddefnyddio'r Proffil Un Dudalen a'r Offeryn Gwerthfawrogi.

- Proffil un dudalen
- Offeryn gwerthfawrogi.
- Diwrnod da diwrnod gwael
- Dyheadau
- Proffil gwneud penderfyniadau.
- Beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio
- Siart cyfathrebu
- Cylch perthynas
- Log dysgu
- 4 plws 1

**Proffiliau un dudalen**

Yn sylfaen cefnogaeth sy'n canolbwyntio ar unigolion, mae proffil un dudalen yn cynnwys gwybodaeth allweddol am gymeriad, doniau a thalentau unigolion; beth sy'n bwysig iddynt a'r ffordd orau i'w cefnogi.

**Offeryn gwerthfawrogi**

Defnyddir yr offeryn yma i gasglu gwybodaeth am beth mae pobl eraill yn ei hoffi a'i edmygu am unigolyn; eu doniau, eu talentau a'u diddordebau.

**Diwrnod da – diwrnod gwael**

Defnyddir yr offeryn yma i gasglu gwybodaeth am beth sy'n gwneud diwrnod unigolyn yn dda neu'n wael, a'r hyn y gallwch ei wneud i sicrhau eu bod yn cael mwy o ddyddiau da.

**Dyheadau**

Yn eich helpu i ddarganfod, yn seiliedig ar ddoniau a thalentau unigolyn, yr hyn sy'n bwysig iddynt, beth maen nhw am fod a beth maen nhw am wneud.

**Beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio**
Ciplun o safbwyntiau gwahanol bobl o sut mae pethau, beth sy'n gweithio'n dda, a beth ddylai fod yn wahanol. Gall ganolbwyntio ar un maes bach o addysg y dysgwr neu fod yn fwy cyffredinol.

**Siart cyfathrebu**
Beth mae'r unigolyn yma yn ei gyfathrebu drwy ei ymddygiad, a sut mae am i chi ymateb

**Proffiliau a chytundebau gwneud penderfyniadau**
Darlun o'r penderfyniadau a wnaiff y dysgwyr, sut maen nhw'n gwneud hynny, a'r gefnogaeth a'r wybodaeth mae arnyn nhw eu hangen.

**Cylch perthynas**
Crynodeb gweledol o'r bobl bwysig ym mywyd yr unigolyn.

**Log dysgu**
Cofnod o ddysgu unigolion sy'n eich helpu i weld beth ddylai aros yr un peth a beth ddylai newid.

**4 plws 1**
Offeryn meddwl i'ch helpu i ystyried beth ddigwyddodd drwy edrych ar hyn y buoch chi'n rhoi cynnig arno a'i ddysgu, yn falch ohono ac yn pryderu amdano - ac yna i'ch helpu i benderfynu beth i'w wneud nesaf .



Mae gweithio gyda rhieni trwy ddull sy’n canolbwyntio ar unigolion bob amser yn dechrau mewn ffordd gadarnhaol gyda dathliad o’r hyn sy’n gwneud y plentyn yn unigryw ac yn un sy'n cael ei werthfawrogi. Gosodir targedau sy'n agos at anghenion gwirioneddol y dysgwr ac felly’n rhwyddach eu cyflawni, gyda phawb sy’n bresennol yn hollol atebol ac yn ymrwymedig i lwyddiant. Mae rhieni, y dysgwyr a'r gweithwyr proffesiynol yn bartneriaid cyfartal a chaiff y dull ei weithredu gyda’r dysgwr yn y canol.

Mae gennym nifer o deuluoedd yn ein hysgol sydd wedi bod yn ymwneud â’r dull yma ers peth amser. Mae ganddyn nhw nawr berthynas gref gyda gweithwyr proffesiynol sy’n hyrwyddo deialog agored a datrys problemau ar gyfer llwyddiant y dysgwr.

Mae rhieni wedi rhoi sylwadau cadarnhaol ar y dull gweithredu, yn arbennig sut mae’n adeiladu ymddiriedaeth a pherthynas gref ar draws proffesiynau a chymunedau. Mewn llawer o achosion, mae wedi grymuso rhieni a sicrhau eu bod yn deall yn llawn y gefnogaeth sydd ar gael a chynnydd eu plentyn.

**Pennaeth**



Rwy fel arfer yn defnyddio diwrnod da – diwrnod gwael i geisio canfod beth sy'n bwysig i rywun, a sut i'w cefnogi, er fy mod hefyd yn cael cylch perthynas yn neilltuol o ddefnyddiol wrth geisio dynodi unigolyn allweddol a allai sicrhau newid.

Gwerthfawrogi. Pwysig i/ar gyfer. Beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio. Beth allai fod yn well

Gwelais fy mod yn cofnodi'r rhan fwyaf o'r wybodaeth mae arnaf fi ei hangen o dan y penawdau hyn ac mae eu defnyddio yn fy ymgyngoriadau yn fy helpu i ganolbwyntio ar anghenion a dymuniadau'r dysgwyr. Roeddwn hefyd eisiau sicrhau fy mod yn rhoi cymaint o ran â phosib i'r dysgwyr yr ydw i'n gweithio gyda nhw wrth ddynodi'r gefnogaeth maen nhw'n teimlo bod ei hangen arnynt.

Ymddengys bod rhieni hefyd yn hapusach gyda'r ffordd hon o adrodd, yn arbennig gyda'r ffocws yn symud tuag at y cadarnhaol, h.y. yr hyn y gall y plant ei wneud, a datblygu ymyriadau ymarferol sy'n rhoi ystyriaeth i safbwynt y dysgwr a safbwynt y rhieni.

Seicolegydd Addysg

## Mae offeryn meddwl diwrnod da – diwrnod gwael yn gadael i ni ddarganfod yn benodol beth sy’n gwneud diwrnod da a diwrnod gwael i bob dysgwr.

Gyda’r wybodaeth yma, gallwch ddeall mwy am yr hyn sy’n bwysig i’r dysgwr, a gallwch wneud yn siŵr fod ganddynt yr union gefnogaeth y mae arnyn nhw ei hangen bob dydd yn yr ysgol neu'r coleg.





**Diwrnod da Molly**

- ✓ Mam yn mynd â fi yn y bore.
- ✓ Ffarwelio â mam a dad yn iawn yn y bore, cael cwtsh a chusan.
- ✓ Cerdded am o leiaf 5 munud i gyrraedd yr ysgol.
- ✓ Cael gwersi sy'n gadael i chi fod yn greadigol a chymryd cyfle - arbrofi a dim ots os ydw i'n anghywir.
- ✓ Llawer o hwyl gyda fy ffrindiau.
- ✓ Ein criw i gyd yn chwarae gyda'n gilydd.
- ✓ Mam neu Dad yn dod i fy nôl i ar ddiwedd y dydd.
- Fi a ffrind yn cael tasg gan yr athro.
- ✓ Mam neu Dad gartref pan fydda i'n dod yn ôl o'r
- ✓ ysgol.
- Gwneud ysgrifennu a darlunio, posteri sydd orau.
- ✓ Darllen llyfrau antur da.
- ✓ Cerdded rhan o'r ffordd adre ar ôl ysgol.
- ✓

**Diwrnod gwael Molly**

- ✗ Mam yn gorfod mynd i'r gwaith yn gynnar ac yn methu mynd â fi i'r ysgol.
- ✗ Athro dan straen ac yn gweiddi.
- ✗ Gweld rhywbeth nad ydw i'n ei hoffi.
- ✗ Athro yn gweiddi ar rywun yn gwneud i mi deimlo dan straen ac yn anghysurus.
- ✗ Teimlo mod i wedi gwneud rhywbeth o'i le, fel peidio â gwneud gwaith cartref neu lenwi cofnod darllen.
- ✗ Yr athro yn edrych ar gofnodion darllen - yn gwneud i mi bryderu.
- Dangos fy ngwaith i'r dosbarth heb ofyn.
- ✗ Gorfod eistedd trwy wasanaeth hir.
- Peidio â chael egwyl, neu gael egwyl fer.
- ✗ Teimlo mod i'n methu cyrraedd y targed - heb wneud
- ✗ rhywbeth mae disgwyl i mi wneud neu ei wneud yn anghywir.
- ✗ Cael prawf heb wybod ei fod yn dod.
- ✗ Yr athro yn darllen canlyniadau'r prawf yn uchel.

# Manteision yr offeryn meddwl dyheadau

**Mae'r offeryn meddwl yma yn dangos i'r dysgwyr fod rhai o'r pethau mae eraill yn eu hoffi a'u hedmygu amdanynt yn nodweddion y dymunant eu cael.**
**Yn ogystal, mae'r offeryn meddwl yma yn annog dysgwyr i feddwl nid yn unig pa yrfa hoffen nhw gael, ond hefyd pa fath o berson hoffen nhw fod.**

Oherwydd sylw Mam-gu, fe wnaethon ni edrych wedyn ar broffil un dudalen Jake. Beth allai Jake ddweud wrthyn ni nawr am ei ddyhead ar gyfer y dyfodol?
Fe wnaethon ni edrych ar yr hyn rydyn ni'n ei hoffi a'i edmygu amdano a siarad am y math o berson y byddai eisiau bod yn y dyfodol, yn hytrach na chanolbwyntio ar yr hyn yr hoffai wneud. Byddai edrych ar yr hyn oedd yn bwysig i Jake hefyd o gymorth wrth fapio dyheadau'r dyfodol ar ei gyfer - yr ysgol

Mae'r offeryn meddwl yma yn galluogi'r oedolion ym mywyd y dysgwr i nodi cyfleoedd i feithrin cryfderau'r dysgwr, a darganfod ffyrdd i'r dysgwyr ddefnyddio eu cryfderau mewn profiad gwaith a rolau yn y dyfodol. - **Yr ysgol a'r rhieni**

**Mae'r offeryn beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio yn rhoi ystyriaeth i wahanol safbwyntiau ac mae'r adrannau clir yn canolbwyntio ar y person sy'n siarad.**

Rydyn ni'n ffurfio cynlluniau gweithredu ac yn dynodi'r person sy'n gyfrifol am bob gweithred, ynghyd â'r dyddiad ar gyfer cwblhau hynny.

Nid yw'r camau gweithredu bob amser yn rhai y mae angen i'r ysgol eu gwneud; gellir gosod perchnogaeth cyfrifoldeb gyda'r dysgwr a'r rhieni a phobl eraill lle bo'n briodol.

Mae modd cyflawni rhai o'r camau gweithredu yn gyflym iawn, sy'n ardderchog gan ei fod yn golygu y bydd gan y dysgwr fwy o ffydd yn y broses.

**Ysgol**



# Pam defnyddio siartiau cyfathrebu?

Mae pawb ohonom yn cyfathrebu mewn amrywiaeth o ffyrdd ac mae siartiau cyfathrebu yn ddull syml ond grymus o ganfod a chofnodi sut mae dysgwr yn cyfathrebu drwy eu gweithredoedd yn ogystal â'u geiriau.

Drwy ddefnyddio'r offeryn meddwl yma gallwch wrando ar ddysgwyr, sut bynnag y maent yn cyfathrebu a bydd eich strategaethau rheoli yn llawer mwy llwyddiannus oherwydd gallwch ganolbwyntio ar newid y pethau cywir p'un a yw hynny'n cyfeirio at yr hyn sy'n digwydd neu ganfyddiad y dysgwr ohono.

Gallwch hefyd sicrhau bod pawb sy'n gweithio gyda'r dysgwr yn dod i'w adnabod ac yn ymateb mewn modd cyson i'w gyfathrebu.

**'Beth ydw i'n ei gyfathrebu i chi?' a 'Beth ydych chi'n ei gyfathrebu i fi?'**
Mae dau fath o siart gyfathrebu:

**Mae'r cyntaf yn ddisgrifiad clir a grymus o sut mae'r dysgwr yn cyfathrebu.** Yn yr ail, yn hytrach na chofnodi beth mae'r dysgwr yn ei wneud, cofnodwn yr hyn rydyn ni'n ceisio'i gyfathrebu iddyn nhw, ac yna beth rydyn ni'n eu hannog nhw i wneud.

| Beth rydyn ni am ei ddweud wrth William | I wneud hyn | Cefnogir gan |
|---|---|---|
| Ei bod yn amser bwyd | Gwneud yn siŵr bod William yn edrych arnoch a dweud y gair 'brecwast', 'cinio' neu 'swper'. | Dangos ei blât i William |
| Ei bod yn amser mynd | Gwneud yn siŵr bod William yn edrych arnoch a dweud y gair 'mynd' | Dangos y symbol golau traffig gwyrdd i William. |
| Bod angen iddo ddewis gweithgaredd. | Gwneud yn siŵr bod William yn edrych arnoch a dweud y gair 'dewis'. | Dangos i William y dewis sydd ar gael iddo, heb roi mwy na dau ddewis. Gallwch ddefnyddio eitemau cyfeirio neu luniau i wneud hyn. |

# Mwy o fanteision siartiau cyfathrebu

- Caiff **ymddygiad** dysgwyr ei ddeall fel math o gyfathrebu a gall staff eu cefnogi'n llawer mwy effeithiol.
- Mae siartiau cyfathrebu yn caniatáu i ddysgwyr rannu'r hyn sy'n gweithio orau iddynt pan fyddant yn teimlo'n anhapus neu'n ddig.
- Gall staff newydd a staff cyflenwi ddefnyddio'r wybodaeth ar unwaith i roi cefnogaeth gyda dirnadaeth a dealltwriaeth.
- Gall dysgwyr eraill hefyd ddefnyddio'r wybodaeth ar y siart cyfathrebu i adeiladu perthynas well, yn ogystal â deall bod pawb yn wahanol ac yn cyfathrebu mewn amrywiaeth o ffyrdd.
- Gall rhieni rannu'r ddirnadaeth sydd ganddynt am strategaethau cyfathrebu eu plentyn a gwybod y cânt eu deall a'u rhannu.
- Staff a'r ysgol neu'r coleg. Mae'r diwrnod yn fwy esmwyth; mae'r staff yn fwy ymwybodol o pryd mae'r dysgwyr yn teimlo'n bryderus neu'n anhapus, a gallant ymateb yn brydlon ac mewn modd priodol.

# Siart cyfathrebu ymddygiad:

| Ar yr amser yma | Pan fydd hyn yn digwydd | Rydyn ni'n meddwl bod hyn yn golygu | Mae angen i ni wneud hyn |
|---|---|---|---|
| Amser chwarae | Mae'n edrych yn ôl ar yr oedolion dro ar ôl tro | Nid yw am chwarae'n annibynnol | Cydio yn ei law os nad yw'n gofyn fel arall. Defnyddio cardiau i'w alluogi i ddangos a yw'n hapus neu'n drist am yr hyn sy'n digwydd |
| Newidiadau yn y drefn arferol | Gofyn ble mae'n mynd, yn gyson | Gormod o ddewis, mae'n ei chael yn anodd penderfynu ble i fynd | Rhoi bwrdd gweithgaredd iddo fel y gall ddewis rhwng dau weithgaredd |
| Amser gweithgaredd | Ailadrodd ymadroddion o raglenni teledu neu ymadroddion oedolion | Mae arno eisiau cymdeithasu gyda'r person | Annog cymdeithasu trwy fodelu mewn modd priodol |

# Offerynnau meddwl gwneud penderfyniadau



**Mae dwy ran i'r offeryn meddwl gwneud penderfyniadau:**

Y proffil gwneud penderfyniadau, sy'n rhannu dewisiadau'r dysgwyr wrth wneud penderfyniadau; a'r

Cytundeb gwneud penderfyniadau sy'n nodi'r penderfyniadau pwysig y mae angen i'r dysgwyr eu gwneud a sut maen nhw am gael eu cefnogi wrth iddynt eu gwneud.

Gall y dysgwyr wneud penderfyniadau gwybodus eu hunain, gyda chefnogaeth. Gall y dysgwyr a'r staff ddefnyddio’r offer i feddwl sut i gynyddu eu gallu i wneud penderfyniadau a chynyddu eu cyfrifoldeb.

Pan fydd rhieni'n ymwneud â gwneud penderfyniadau gan y dysgwr (e.e. rhieni ac athrawon), mae’r offeryn meddwl yma’n egluro pwy sy’n rhan o wneud y penderfyniad a sut gwneir y penderfyniad terfynol.



## Efallai bydd angen cefnogi rhai rhieni i weld eu plant fel partneriaid yn y penderfyniadau ynghylch eu haddysg.

Gallent fod yn pryderu, er enghraifft, nad oes gan y plentyn y gallu i ystyried yr holl ffactorau perthnasol.

Gallai cynnig cefnogaeth ac anogaeth i rieni yn y sefyllfa yma helpu i oresgyn anawsterau a sicrhau cyfranogiad llawn eu plentyn.

Rhaid i'r sawl sy'n ymarfer y swyddogaeth ystyried safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn a'r rhieni, gan gynnwys pan fydd eu safbwyntiau'n wahanol.

Efallai y bydd angen cymorth ar rieni i ddeall y gall eu plant, gydag amser, ddechrau ffurfio'u barn eu hunain am eu haddysg, cefnogaeth a sut maen nhw am gyfranogi mewn penderfyniadau ynghylch eu ADY.

Gallai'r safbwyntiau hyn fod yn wahanol i rai eu rhieni. Gyda chymorth, gallai'r rhieni ddod i ddeall bod hwn yn gam pwysig ar daith eu plentyn tuag at fod yn fwy annibynnol a fydd yn ei helpu i reoli'i ddysgu.



# Gweithgaredd - Proffil Un Dudalen

Gan edrych ar yr astudiaeth achos a meddwl am y model sy'n dangos sut mae'n gweithio (6 chwestiwn) –
ewch ati i godi'r holl wybodaeth bwysig a datblygu'r proffil un dudalen

Joe

# Eiriolaeth

Mae gwasanaeth **eiriolaeth annibynnol** SNAP Cymru yn cynnig: gwybodaeth, cyngor, eiriolaeth, cynrychiolaeth a chefnogaeth i blant a phobl ifanc ag ADY.
Mae eiriolaeth yn hanfodol er mwyn sicrhau bod eu dymuniadau a'u safbwyntiau yn cael eu clywed bob amser, a bod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu a'u grymuso i godi llais drostynt eu hunain.

Mae SNAP Cymru wedi mabwysiadu'r egwyddorion craidd canlynol –

- Mae ein heiriolwyr yn gwerthfawrogi ac yn parchu plant a phobl ifanc fel unigolion.
- Mae ein heiriolwyr yn gweithio i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu deall yr hyn sy'n digwydd iddynt, yn gallu gwneud eu barn yn hysbys a hefyd, lle bo hynny'n bosibl, yn gallu ymarfer dewis wrth wneud penderfyniadau amdanyn nhw eu hunain a'u dyfodol.
- Mae ein heiriolwyr yn helpu plant a phobl ifanc i godi materion a phryderon am yr hyn maen nhw'n anhapus yn ei gylch. Bydd hyn hefyd yn cynnwys gwneud cwynion ffurfiol ac anffurfiol o dan Adran 26 o Ddeddf Plant 1989.
- Gall cyfranogiad gweithredol plant a phobl ifanc yn y broses o gasglu gwybodaeth, cynllunio a gwneud penderfyniadau helpu i osgoi anghydfod a gwrthdaro.

Gallwn helpu plentyn neu berson ifanc i ddeall y prosesau perthnasol er mwyn deall eu hawliau, a darparu gwybodaeth ddiduedd i'w helpu i ddeall eu dewisiadau a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.



# Pryd gall person ifanc gael eiriolwr ?

- Os yw person ifanc yn teimlo nad oes rhywun yn gwrando ar eu barn ac eisiau rhywun ar ei ochr
- Os ydyn nhw'n anfodlon ar y gofal maen nhw'n ei gael
- Os ydyn nhw'n ddig neu'n anhapus am rywbeth sy'n digwydd iddyn nhw
- Os ydyn nhw'n teimlo nad ydyn nhw wedi cael eu trin yn deg
- Os nad oes neb yn dweud wrthyn nhw beth sy'n digwydd o ran eu sefyllfa
- I'w helpu i gymryd rhan mewn cyfarfodydd ac adolygiadau
- I helpu pobl ifanc i wneud penderfyniadau ar adegau pontio o'r ysgol i'r coleg
- Os ydyn nhw am wneud cwyn, hawlio bod gwahaniaethu yn eu herbyn neu apelio i'r tribiwnlys.
- Os oes angen 'Cyfaill Achos' i'w cefnogi gydag apêl neu hawliad
- Os nad oes ganddyn nhw alluedd - ni fydd pawb yn medru gwneud penderfyniadau. Heb alluedd yw'r enw ar hyn.

Gall rhieni sydd heb alluedd hefyd gael eiriolwr gan SNAP Cymru.

# Derbyn y newyddion diweddaraf gan SNAP Cymru

Mae gan wefan SNAP Cymru lawer o wybodaeth ac adnoddau defnyddiol y gallwch gael mynediad atynt a'u rhannu ar unrhyw adeg:

snapcymru.org

Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol i gael y newyddion diweddaraf am ddeddfwriaeth a digwyddiadau:

www.facebook.com/SNAPCymru

@SNAPCymru

